**Astudiaeth achos; Mae rhifedd yn fwy na rhifau**

Mae rhifedd yn rhan annatod o fywydau bob dydd plant, gyda chefnogaeth a chyfleoedd i archwilio cysyniadau mathemategol gall plant ddatblygu eu harchwiliad, eu chwilfrydedd, a'u sgiliau cyfathrebu.

Yn y Blog hwn, siarada PACEY Cymru ag Eleri Williams a gyrchodd dair gweminar 'rhifedd yn y blynyddoedd cynnar' wedi'u hwyluso gan PACEY Cymru a dywed wrthym sut y mae'r wybodaeth a rannwyd wedi cefnogi ei harfer a'r profiadau y mae'n eu cynnig i blant dan ei gofal.

**Dywedwch wrthym am eich lleoliad**

Cofrestrais fel gwarchodwr plant yn 2024, fel darpariaeth ddwyieithog, wedi fy lleoli yng Ngheredigion. Rwyf wedi cofrestru gydag AGC (Arolygiaeth Gofal Cymru) i ofalu am blant hyd at 12 oed, ond yn darparu gofal ar hyn o bryd i blant sy'n iau na 6 oed. Dewisais leoliad fy eiddo yn ofalus oherwydd roeddwn eisiau lleoliad gwledig gyda chefn gwlad ar garreg fy nrws, er mwyn i ni allu defnyddio'r amgylchedd yn ein chwarae a'n dysgu bob dydd. Mae gennyf ardal awyr agored fawr, ac ynddi ardal ar gyfer ein hwyaid a'n hieir y mae'r plant wrth eu boddau yn helpu i ofalu amdanynt. Rwy'n ffodus bod yr ardd yn cynnwys ystod o goed ffrwythau ac mae'r plant yn cael eu hannog i gasglu eu ffrwyth eu hunain i gael byrbryd.

**Beth am y gweminarau rhifedd yn y blynyddoedd cynnar a ddenodd eich diddordeb?**

Fel gwarchodwr plant sydd newydd gofrestru rwy'n awyddus i ddatblygu yn y rôl. Ar ôl darllen am y gyfres o weminarau yr oedd PACEY Cymru yn eu cynnig mewn perthynas â rhifedd cynnar, sylweddolais fod hwn yn agwedd yr hoffwn ddatblygu fy nealltwriaeth ohono ymhellach. Esboniodd y disgrifiad cwrs pob sesiwn ac felly penderfynais mai dyna'n union oedd ei angen arnaf, gan y byddent yn fy nghyfarparu â syniadau a gwybodaeth y gallwn eu defnyddio yn fy arfer gwarchod plant yn y cartref bob dydd.

Trafododd y sesiwn gyntaf archwilio, rhannu, didoli, a grwpio trwy weithgareddau ymarferol, chwareus. Canolbwyntiodd yr ail sesiwn ar ddealltwriaeth o rifedd ym mywyd bob dydd gan gynnwys profiadau dysgu awyr agored. Trafododd y trydydd sesiwn rôl yr oedolyn sy'n ymgysylltu mewn perthynas â chefnogi rhifedd cynnar, gan gynnig ysbrydoliaeth ar sut i gyflwyno plant ifanc i'r byd rhifedd trwy archwilio, ymchwilio, arbrofi, a meddwl yn gritigol.

**Sut y mae'r hyfforddiant hwn wedi dylanwadu ar eich arfer?**

Fel gwarchodwr plant sydd newydd gofrestru mae'n anodd gwybod a ydych chi'n gwneud y pethau cywir. Ar ôl yr hyfforddiant roeddwn i'n teimlo'n fwy hyderus a gwybodus. Fe wnaeth y trafodaethau yn ystod y sesiynau alluogi imi fyfyrio ar fy arfer presennol. Fe wnaeth fy atgoffa bod mwy i rifedd na chyfrif ac adnabod rhifau. Fe wnaeth yr hyfforddiant fy helpu i adnabod agweddau a oedd yn gweithio'n dda o fewn fy narpariaeth ac fe roddodd hwb i fy hyder gan fy mod yn fwy hyderus fy mod eisoes yn cynnwys llawer o gyfleoedd i ddatblygu sgiliau rhifedd cynnar.

Fe wnaeth y trafodaethau fy helpu i ddeall fy rôl fel yr oedolyn sy'n galluogi ac wrth greu amgylchedd sy'n cyfoethogi o ran rhifedd, pwysigrwydd adnoddau pen agored ac offer mathemategol megis tapiau mesur a chloriannau pwyso.  Deallaf yn awr trwy gynnig rhywbeth

sy'n pryfocio diddordeb a rhyfeddod a rhoi amser i blant archwilio, mae'n caniatáu iddynt ddatblygu llawer o sgiliau rhifiadol gan gynnwys gwneud penderfyniadau. Rhannwyd gyda ni'r angen i blant ddysgu trwy brofi a methu, gyda mynediad at ystod o adnoddau i'w harchwilio a'u cynnwys ynghyd â chyfleoedd i gynllunio a gadael i blant ddatrys eu problemau eu hunain heb i oedolyn sy'n galluogi dysgu i orfodi datrysiad. Buom yn trafod sut y gallwn sgaffaldio chwarae plant, trwy ofyn cwestiynau pen agored, a chynnwys geirfa fathemategol i annog y plant i ddatblygu eu sgiliau sylfaenol.

Ers yr hyfforddiant, rwy'n fwy ymwybodol o'r cwestiynau rwy'n eu gofyn i sgaffaldio dealltwriaeth y plant, gan gamu yn ôl i ganiatáu amser iddynt gael eu hamsugno yn eu chwarae a chael amser heb ymyrraeth i archwilio ac arbrofi. Eisoes gallaf weld budd hyn o ran canolbwyntio.

Yn ychwanegol, mae wedi rhoi ymwybyddiaeth gynyddol i mi o rifedd o ran y cwricwlwm, y rhan y mae'n chwarae yn natblygiad plant; pwysigrwydd arsylwi a gwybod sut i gefnogi plant wrth hefyd ganiatáu iddynt ofyn a datrys eu problemau eu hunain gan ddefnyddio eitemau a phrofiadau bob dydd, gan ganiatáu iddynt weithio ar ddatblygu sgiliau bywyd allweddol. Mae'r cwrs wedi pwysleisio budd amgylchedd ysbrydoledig a chyfoethog, yr angen am ddealltwriaeth dda o ddiddordebau pob plentyn a bod pob plentyn yn wynebu her wahanol, hyd yn oed pan fyddan nhw'n cael yr un profiad.

Rwyf bellach yn edrych ar yr adnoddau sydd gennyf i a'r gweithgareddau a'r profiadau rwyf yn eu darparu mewn goleuni newydd. Gan gymryd amser i feddwl sut y gallaf gynnwys amrywiaeth ehangach o brofiadau chwarae i gyfoethogi sgiliau rhifedd plant cymaint â phosibl.

Roedd y Nadolig yn gyfle anhygoel i gynnwys geirfa fathemategol yn gyfannol yn ein chwarae. Roedd y plant wrth eu bodd yn postio llythyron at Siôn Corn. Manteisiais ar y cyfle hwn i ehangu ar eu sgiliau trwy wneud mwy na dim ond cyfrif y llythyron ac adnabod rhifau ar y llythyron, fel y byddwn wedi gwneud yn flaenorol, yn lle hynny cynigiais ystod o lythyron i'w postio. Bu'r plant yn didoli ac yn paru'r llythyron, yn eu trefnu yn ôl eu maint, ac yn trafod safle'r stampiau, ac yn mynd â nhw i'r bwlch postio i'w postio at Siôn Corn. Hyd yn oed wrth y blwch postio, defnyddiwyd geirfa rifiadol; buom yn trafod uchder y blwch postio a sut yr oedd angen iddynt ymestyn yn uchel i bostio'r llythyr. Buom yn trafod pwy oedd y talaf. Ble mae'r llythyron yn mynd? Ar y blwch postio neu yn y blwch postio? Fe wnaethom hyd yn oed edrych ar sut y maen nhw'n ffitio yn y blwch postio, beth petai'r llythyron yn rhy fawr? Sut byddai modd inni eu ffitio?



Rwyf hefyd wedi rhoi amrywiaeth o hambyrddau archwilio i'r plant. Roedd y rhain yn cynnwys llus, ffrwythau sych, canghennau coed pinwydd, a chiwbiau iâ. Roedd defnyddio'r rhain yn cynnig cyfleoedd i gymharu, trefnu, didoli, a pharu eitemau yn ôl maint.



Fe wnaeth y sesiynau hyn fy ysbrydoli, ac edrychaf ymlaen at gynnwys y syniadau newydd yn ein chwarae.  Er bod gennyf lawer o adnoddau ar gyfer chwarae rhannau rhydd bach, mae'r syniad o ddefnyddio teiars gwibgart, hen olwynion llywio a chafnau i gyfoethogi'r amgylchedd yn syniad anhygoel. Mae teiars gwibgerti yn ddigon bach i'r plant eu rholio, eu pentyrru a'u trefnu a byddaf yn bendant yn edrych i'w cynnwys yn fy ardal awyr agored.

O ganlyniad i'r hyfforddiant, gallaf weld cyfoeth y cyfleoedd ar gyfer datblygu geirfa fathemategol. Mae wedi bod yn galonogol arsylwi ar y plant yn cynnwys yn eu chwarae annibynnol, peth o'r eirfa fathemategol newydd rwyf wedi'i chyflwyno ers mynychu'r gweminarau. Dengys hyn eu bod wedi cadw'r wybodaeth a fodelwyd a'i rhannu.

Rwy'n frwdfrydig i ddefnyddio chwilfrydedd a rhyfeddodau naturiol plant i wreiddio sgiliau sylfaenol hanfodol gan gynnwys didoli a dosbarthu, deall ymwybyddiaeth ofodol o'u hunain a siapiau ynghyd ag adnabod patrymau, cyfrif a deall rhifau.  Mae fy ardal awyr agored yn ddelfrydol ar gyfer defnyddio cariad y plant at natur a'r awyr agored i danio eu dychymyg a chaniatáu cyfleoedd ar gyfer dysgu ac atgyfnerthu'r holl sgiliau a drafodwyd yn y sesiynau. Er enghraifft, pan awn am dro yn yr hydref, byddwn yn parhau i gasglu dail ac yn caniatáu i blant ddidoli, paru yn ôl maint, siâp, a chyfrif. Gallaf gyfoethogi eu dysg trwy greu senarios datrys problemau sy'n herio pob plentyn ac yn caniatáu iddynt ddatrys eu heriau unigol.

**A fyddai gennych unrhyw gyngor neu awgrymiadau gwych i gyfoedion?**

Fy mhrif gyngor fyddai edrych ar bob gweithgaredd a phrofiad ac ystyried y sgiliau rhifedd ehangach a all ddod ohono. Mae rhifedd yn fwy na rhifau.

**#Arwyddgyfeirio**

Inspiring Environments / Amgylcheddau Ysbrydoledig - PACEY